

# Green jobs and justice in low carbon Wales







Tackling climate change could bring huge changes to the economy in Wales, creating as well as destroying thousands of jobs.

Wales TUC asked the Bevan Foundation to review the impact of the transition to a low carbon economy on employment and to identify what more needs to be done. The review looked at government plans and strategies and analysed the possible impact in Wales.

It found a huge number of policies and initiatives were in place. Many more were announced in the course of the review, and since its completion in December 2009. Despite this, not enough is being done to protect existing jobs, to create new jobs and to make sure they have decent terms and conditions.

Creating a low carbon economy is vital for our survival. But it must not be at the expense of people's livelihoods. Working with unions, as well as business, there is much more that could be done to build a green and fair future for everyone.

## Climate change means economic change

- The evidence on climate change is 'incontrovertible' and action is already being taken to reduce greenhouse gas emissions at global, EU and UK levels as well as in Wales and locally.
- Changing to a low carbon economy will involve a major restructuring of production and employment. The key question is who will pay the price of change.

## Wales will have to reduce its greenhouse gas emissions

- Wales has high levels of emissions per head. Industry accounts for more than half of these.
- The Welsh Assembly Government is committed to reducing greenhouse gases by 3% a year in areas of devolved competence. Non-devolved areas are included in the UK target to reduce emissions by 26% by 2020.
- The reductions are being achieved through carbon trading schemes, taxation and regulation, and changes in consumer demand and habits.

## Wales is at risk of losing jobs from vulnerable sectors and might not benefit from jobs in new low carbon industries

- Reducing greenhouse gas emissions will mean some jobs will disappear, many will change, and some jobs will be created.
- Estimating the impact of change is complex as it depends on the characteristics of the company, the amount of energy used, the price of carbon and of other inputs, supply chain and spin off effects, and the risk of 'leakage' overseas.
- In the UK the Welsh economy is the most at risk of change because of the importance of large carbon-emitting industries (e.g. iron and steel) – about 18,000 jobs could be affected.
- A further 100,000 jobs are in sectors likely to see significant change e.g. power generation, automotive, construction.
- About 20,000 new jobs could be created in new 'low carbon' sectors, e.g. renewable energy and energy efficiency, and in existing industries.
- But the low carbon goods and services sector is relatively weak in Wales compared with the rest of the UK.

## The Welsh Assembly Government has lots of strategies and is taking some action but it is not enough

- The Welsh Assembly Government has produced a large number of strategies and plans on environmental issues as well as a green jobs strategy.
- There are many initiatives to promote renewable energy, encourage domestic energy efficiency and sustainable construction, and to advise businesses.
- The various strategies could be more joined-up, both with each other and with action on the ground.
- There is a significant gap in strategy and action on skills.
- There needs to be a more robust evidence base that informs thinking and actions.
- There needs to be a firm commitment to a 'just transition' to a low carbon economy.




## The Welsh Assembly Government needs to do more

The Welsh Assembly Government should:

- Put fairness and job creation at the centre of its climate change and green jobs strategies.
- Establish a high-level group lead by the First Minister to drive forward the transition to low carbon.
- Ensure the green jobs strategy is joined up with other strategies and with action on the ground.
- Focus on job creation.
- Report progress regularly to Wales TUC and others.
- Produce comprehensive action plans to support vulnerable sectors and their workforces.
- Urgently address the skills needed for a low carbon future.
- Ensure that new green jobs are decent jobs.
- Recognize the key role of employees in 'greening' workplaces and support a green workplace campaign.
- Develop support for communities vulnerable to change.
- Establish a sound evidence base for its low carbon policies and actions.

Copies of the full report are available at: www.bevanfoundation.org

The Bevan Foundation is an independent, charitable think tank for social justice in Wales.



Bevan Foundation
Innovation Centre
Festival Drive
Ebbw Vale
Blaenau Gwent NP23 8XA
Tel. 01495 356702
Email info@bevanfoundation.org
Web www.bevanfoundation.org
Registered Charity no. 1104191



# Swyddi gwyrdd a chyfiawnder mewn Cymru isel ei charbon

Gallai taclo newid yn yr hinsawdd olygu newidiadau mawr iawn i economi Cymru, gan greu yn ogystal â dinistrio miloedd o swyddi.

Gofynnodd Cyngres Undebau Llafur Cymru i Sefydliad Bevan adolygu effaith y trawsnewid i economi isel ei charbon ar gyflogaeth ac i ganfod beth mwy sydd angen ei wneud. Ystyriodd yr adolygiad gynlluniau a strategaethau'r Llywodraeth a dadansoddi'r effaith posibl yng Nghymru.

Cafwyd bod nifer fawr o bolisïau a mentrau yn bodoli. Cyhoeddwyd llawer mwy yn ystod cyfnod yr adolygiad ac ers ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2009. Er gwaethaf hyn, does dim digon yn cael ei wneud i ddiogelu'r swyddi sydd eisoes yn bodoli, i greu rhai newydd ac i sicrhau bod iddyn nhw amodau a thelerau desant.

Mae creu economi isel ei charbon yn hanfodol i'n goroesiad. Ond ddylai hynny ddim bod ar draul bywoliaeth pobl. Wrth gydweithio gyda'r undebau yn ogystal â busnesau, gellid gwneud llawer mwy i greu dyfodol gwyrdd a theg i bawb.





## Mae newid hinsawdd yn golygu newid economaidd

- Mae'r dystiolaeth ar newid yn yr hinsawdd yn 'ddiymwad' ac eisoes fe ddechreuwyd gweithredu i leihau'r nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang, yn Ewropeaidd ac yn y DU, yn ogystal ag yng Nghymru ac yn lleol.
- Bydd newid i economi carbon isel yn golygu ailstrwythuro dirfawr ym maes cynhyrchu a chyflogaeth. Y cwestiwn allweddol yw, pwy fydd yn talu'r pris am y newid.

## Bydd raid i Gymru ostwng ei hallyriad o nwyon tŷ gwydr

- Mae lefelau'r allyriadau y pen yng Nghymru yn uchel. Diwydiant sy'n gyfrifol am fwy na hanner y rhain.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i ostwng y nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn ym meysydd cymhwysedd datganoledig. Caiff meysydd heb eu datganoli eu cynnwys yn nharged y DU i ostwng allyriadau o 26% erbyn 2020.
- Cyflawnir y gostyngiadau drwy gynlluniau masnachu allyriadau carbon, trethiant a rheoleiddio a newidiadau yn y galw ac yn arferion defnyddwyr.

## Mae perygl i Gymru golli swyddi o'r sectorau agored i niwed ac efallai na fydd yn cael mantais o'r swyddi yn y diwydiannau newydd carbon isel

- Bydd gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn golygu y bydd rhai swyddi'n diflannu, llawer o swyddi'n newid a rhai swyddi'n cael eu creu.
- Mae rhagfynegi effaith y newid yn gymhleth gan ei fod yn dibynnu ar nodweddion y cwmni, faint o ynni a ddefnyddir, pris carbon a'r mewnbynnau eraill, y gadwyn gyflenwi ac effeithiau sgilgynhyrchu a'r risg o 'ollyngiad' tramor.
- O fewn y DU, economi Cymru sydd dan fwyaf o berygl newid oherwydd pwysigrwydd y diwydiannau mawr sy'n allyrru carbon (e.e. haearn a dur) – gallai effeithio ar tua 18,000 swydd.
- Mae 100,000 o swyddi eraill mewn sectorau allai weld newidiadau sylweddol e.e. cynhyrchu p?er, cerbydau modur, adeiladu.
- Gellid creu tua 20,000 o swyddi newydd mewn sectorau 'carbon isel' newydd e.e. ynni adnewyddol ac effeithlonrwydd ynni, ac mewn diwydiannau sy'n bodoli eisoes.
- Fodd bynnag, mae'r sector nwyddau a gwasanaethau carbon yn gymharol wan yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU.

## Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru lawer o strategaethau ac mae'n gweithredu rhywfaint ond nid yw hyn yn ddigon

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu nifer fawr o strategaethau a chynlluniau ar faterion amgylcheddol yn ogystal â strategaeth swyddi gwyrdd.
- Mae yna lawer o fentrau i hyrwyddo ynni adnewyddol, hyrwyddo effeithlonrwydd ynni domestig ac adeiladu cynaliadwy, ac i gynghori busnesau.
- Gallai'r strategaethau amrywiol fod wedi eu cysylltu'n well, gyda'i gilydd a gyda gweithredu ar lawr.
- Mae bwlch sylweddol yn y strategaeth a'r gweithredu ar sgiliau.
- Mae angen sail tystiolaeth gadarnach i oleuo'r meddwl a'r gweithredu.
- Mae angen ymrwymiad cadarn dros 'drawsnewidiad cyfiawn' tuag at economi carbon isel




## Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud rhagor

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:
- Roi cyfiawnder a chreu swyddi yng nghanol ei strategaethau ar newid hinsawdd a swyddi gwyrdd.
- Sefydlu grŵp lefel uchel dan arweiniad y Prif Weinidog i yrru'r gwaith o drawsnewid tuag at garbon isel.
- Sicrhau bod y strategaeth swyddi gwyrdd wedi ei gydgysylltu â strategaethau eraill gyda gweithredu ar lawr.
- Ffocysu ar greu swyddi.
- Adrodd ar y cynnydd wrth TUC Cymru ac eraill.
- Cynhyrchu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr i gynorthwyo'r sectorau agored i niwed a'i gweithluoedd.
- Rhoi sylw ar frys i'r sgiliau fydd eu hangen ar gyfer dyfodol carbon isel.
- Sicrhau bod y swyddi gwyrdd newydd yn swyddi desant.
- Cydnabod rôl allweddol y gweithlu i droi'r gweithle'n wyrddach a chefnogi ymgyrch gweithleoedd gwyrdd.
- Datblygu cymorth i gymunedau agored i niwed i allu newid.
- Sefydlu sail tystiolaeth gadarn dros ei bolisïau a'i weithredu ar garbon isel.

Mae copïau o'r adroddiad llawn ar gael ar y wefan: www.bevanfoundation.org

Sefydliad Bevan - Melin Drafod Cymru ar gyfiawnder cymdeithasol.




Sefydliad Bevan
Innovation Centre
Festival Drive
Glyn Ebwy
Blaenau Gwent NP23 8XA
Ffôn: 01495 356702
E-bost: info@bevanfoundation.org
Gwefan: www.bevanfoundation.org
Elusen gofrestredig rhif: 1104191